

2023 Rhif (Cy.)

2023 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r
A40 (Abergwaun, Sir Benfro)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2023

The A487 & A40 Trunk Roads
(Fishguard, Pembrokeshire)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2023

Gwnaed 22 Rhagfyr 2023

Made 22 December 2023

Yn dod i rym 31 Rhagfyr 2023

Coming into force 31 December 2023

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd gan y cynhelir digwyddiad perthnasol, sef Gŵyl Stryd Nos Galan Flynnyddol Cymdeithas Digwyddiadau Cymunedol Abergwaun ac Wdig, ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road and the relevant length of the A40 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited by reason of a relevant event, namely the Fishguard & Goodwick Community Events Association's Annual New Year's Eve Street Festival, being held on or near the roads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

1. The title of this Order is the A487 & A40 Trunk Roads (Fishguard, Pembrokeshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2023 and this Order comes into force on 31 December 2023.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw—

2. In this Order—
"event period" ("cyfnod y digwyddiad") means the period commencing at 18:30 hours on 31 December 2023 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed;

(1) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 (p. 11). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994 (c. 11), section 1(1). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;
- (ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu mewn darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;
- (iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad perthnasol ac am resymau diogelwch;

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor a chefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" ("*event period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 18:30 o'r gloch ar 31 Rhagfyr 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 2 ddiwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Rhagfyr 2023

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means—

- (i) any vehicle being used for police, fire or ambulance services purposes;
- (ii) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned;
- (iii) any vehicle used by an authorised event official in support of and for reasons of the safety of the relevant event;

"the trunk roads" ("*y cefnffyrdd*") means the A487 Fishguard to Bangor trunk road and the A40 London to Fishguard trunk road.

Prohibition

3. No person may, during the event period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 2 days.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

22 December 2023

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o'r A487 Main Street sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â Hamilton Street.

Y darn o'r A487 y Wesh sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r A487 Ffordd yr Efail.

Y darn o'r A40 y Stryd Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r A487 Ffordd yr Efail.

SCHEDULE

The length of the A487 Main Street that extends from its junction with Fishguard Square to its junction with Hamilton Street.

The length of the A487 West Street that extends from its junction with Fishguard Square to its junction with the A487 Ffordd yr Efail.

The length of the A40 High Street that extends from its junction with Fishguard Square to its junction with the A487 Ffordd yr Efail.